YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEHEFIN, 1886. [Rhif 58.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Tystiolaeth llawer heblaw yr ysgrifenydd yw, fod y Cyfarfod Chwarterol diweddaf a gynnaliwyd yn Llwynrhydowen, Sir Aberteifi, ar ddyddiau Mercher ac Iau, Ebrill yr 28ain a'r 29ain, yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn mhob ystyr sydd wedi cymmeryd lle yn ein hanes fel enwad yn Neheudir Cymru. Yr oedd yn lwyddiant mawr, o herwydd y tyrfaoedd lluosog a ddaeth yn nghyd, yn neillduol ar y dydd Iau. Mae capel newydd Llwynrhydowen, fel y gwyr y rhan fwyaf, o faintioli lawer uwchlaw ein hangenion rheolaidd ni fel cynnulleidfa; ond ar achlysuron neillduol, mae yn hynod o gyfleus, ac felly y bu y tro hwn. Nid oedd yr un sedd i'w hebgor ar lawr nac ar lan, ond nid oedd un arwydd o'r cyffro parhaus a welir yn aml yn ein cyfarfodydd mawrion, pan mae dynion yn tyru ar draws eu gilydd, ac yn sefyll ac yn eistedd bob yn ail. Yr oedd y dystawrwydd hwnw wedi ei sicrhau sydd yn hanfodol i wir ddylanwad y pwlpud. Yr oedd y cyfarfod hwn, hefyd, o'r iawn ryw, nid yn unig o herwydd ansawdd uchel y pregethau a'r anerchiadau a draddodwyd, ond o herwydd y difrifoldeb dwfn a'r ysprydgwresog crefyddol a'i nodweddai o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd holl weinidogion Cymreig y Dywysogaeth yn bresenol—peth na ddygwyddodd o'r blaen yn ein cof ni, beth bynag, a dymunwn dalu iddynt ein diolchgarwch gwresocaf am ddangos eu presenoldeb, heb neb yn tynu'n groes. Yn ychwanegol atynt hwy, da oedd genym weled yn ein plith y Parch. D. L. Evans, Birkenhead; y Proffeswr W. J. Evans, M.A., Caerfyrddin; y Parchn. E. Phillips (B.), Cwrtnewydd; ac R. Davies, gweinidog etholedig Pisgah a Phenrhiwgaled, yn nghyd â'r Meistriaid D. Evans, a D. Ll. Jones, o Goleg Caerfyrddin. Nos Fercher, am saith, arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol gan y Parch. J. Williams, Penrhiw, a phregethwyd gan y Parchn. J. Evans, Gellionen, ac R. J. Jones, M.A., Aberdar—y

blaenaf oddiar Phil. iii. 20, a'r olaf oddiar Jeremiah xxxi. 17. Oedfa dda iawn oedd hon; rhoddwyd yma dôn uchel i waith y pwlpud ar y cychwyn, a chadwyd hi i fyny trwy yr holl gyfarfodydd. Bore tranoeth, dechreuwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, a phregethwyd yn gyntaf gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach. Gwyddai y rhan fwyaf, yn ddiamheu, fod Mr. Lloyd wedi myned trwy gyfwng pwysig, yn ddiweddar, gyda golwg ar ei iechyd corfforol. Yr oedd yn llawenydd genym i gyd, yn ngwyneb hyny, i'w glywed yn siarad braidd mor hwylus a nerthol ag y clywsom ef erioed yn ei ddyddiau goreu. Dywedai Mr. Lloyd ei fod, yn anffodus, wedi gadael ei bregeth gartref ar ei *ddesk*; ond er fod y bregeth yn y Cwmbach, yr oedd y dyn yn mhwlpud Llwynrhydowen, a phrofiad pregethwr am 30 mlynedd tucefn iddo, ac hawdd oedd pregethu fel, yn sicr, y profodd Mr. Lloyd, y dydd hwnw, er gwaethaf ei anffawd. O'r hyn leiaf, yr oedd "myn'd" yn y bregeth. Canlynwyd ef gan y pregethwr appwyntiedig, y Parch. W. J. Davies, Dowlais. Dyma ymddangosiad cyntaf Mr, Davies o flaen cynnulleidfa yn Sir Aberteifi, ac yr ydym yn sicr mai dymuniad y dorf yn gyffredinol oedd, mai nid hwn fyddai y tro diweddaf. Ei bwnc oedd "Y berthynas rhwng crefydd a gwyddor' —pwnc, feallai, annghynnefin, ond nid o gwbl yn annghymhwys, yn ngwyneb symmudiadau meddyliol yr oes bresenol. Er ei bod yn anhawdd, feallai, i wneyd pregeth ar destyn fel hwn a fyddai yn sicrhau sylw didor cynnulleidfa gymmysg, rhaid addef fod Mr. Davies wedi llwyddo i gyfranu dyddordeb bywiol i'r pwnc. Yr oedd yn y bregeth gyfoeth o feddyliau wedi eu trefnu a'u hegluro (*illustrated*) mewn modd medrus, ac yr oedd bywiogrwydd ac egni y traddodiad yn elfen bwysig yn llwyddiant y pregethwr. Gwnaeth Mr. Davies argraff dda ar y rhai a'i clywsant, a chafodd y fraint, y Sul canlynol, o bregethu i gynnulleidfaoedd mawrion yn Mhantdefaid, Capel y Groes, a Chapel y Bryn.

Yn y prydnawn, am ddau, gweddiwyd gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin, a galwyd wedi'n ar y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i draethu ar bwnc cyntaf y Gynnadledd, sef "Ystyr a dylanwad y symmudiad a gychwynwyd gan y Parch. Jenkin Jones, Llwynrhydowen, yn y flwyddyn 1726. Y symmudiad y cyfeirir ato, wrth gwrs, oedd yn erbyn Calfiniaeth, a chychwynwyd ef pan y torodd Jenkin Jones ei gyssylltiad ag eglwys Pantycreuddyn, ac y sylfaenodd achos Llwynrhydowen yn 1726, i amddiffyn ei syniadau Arminaidd ei hun. Ar ol marwolaeth Dr. Rees, o Abertawe, nis gwyddom am neb sydd yn fwy cymhwys i drin y mater hwn na Mr. Jones, a charem yn fawr pe buasai rhywun yn y cyfarfod yn berchen ar bin yr ysgrifenydd buan, er mwyn cymmeryd yr oll a ddywedodd i lawr. Ond os ydym yn cofio yn iawn, addawodd Mr. Jones i beidio colli golwg ar y mater. Yn unol â sylw a wnaed gan y diweddar Barch. Caleb Morris gyda golwg ar gychwyniad symmudiadau mawrion, dosparthodd Mr. Jones ei sylwadau o dan ddau ben. (1) Y dyn—Jenkin Jones. (2) Yr anfoddlonrwydd a fodolai ar y pryd gyda golwg ar yr hen dduwinyddiaeth. Dygwyd ail bwnc y Gynnadledd i sylw gan y Parch. W.

Parry, Bridgend, mewn araeth alluog a chynnwysfawr ar "Ofynion yr oes oddiwrth grefydd." Siaradodd y Parchn. John Davies ac R. C. Jones ar y ddau fater dan sylw; a chan fod yr amser yn fyr, terfynwyd y drafodaeth mewn ychydig eiriau pwrpasol gan y Parch. Thomas Thomas.

Yn yr hwyr, darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Davies, Cribin, a phregethwyd gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, ar "Grist ac Annghrist." Pregeth *striking* mewn mater a chynllun, ac mae genym reswm da dros ddweyd ei bod wedi eu gwerthfawrogi yn fawr. Canlynwyd Mr. Davies gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, ar "Eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd." Os oes un o'n gweinidogion ni o ddifrif gyda'r gwaith o bregethu, mae Mr. Jones yn sicr o fod, ac yr oedd yn ofnadwy o ddifrifol ar yr achlysur hwn; ac nid oes raid i ni ddweyd fod dylanwad yn myned gyda phregethu o ddifrif, fel gyda phob peth arall a wneir gyda holl egni meddwl a chalon dyn. Ar ol ychydig eiriau o ddiolchgarwch gan weinidog y lle, yn gystal ag o ddymuniad am fwy o sêl ac egni yn ein gwaith crefyddol fel ffrwyth y cyfarfodydd, terfynwyd trwy weddi gan y Parch. R. C. Jones. Mae y cyfarfod nesaf—yr un blynyddol—i gael ei gynnal yn Nghiliau Aeron, Mehefin y 23ain a'r 24ain—y Parch. W. James i bregethu, a'r Parch. Thos. Thomas i ddarllen papyr ar "Addysg yr ieuainc yn ein hegwyddorion gwahaniaethol fel Undodiaid." W. J.

PAHAM YR WYF FI YN UNDODWR?

Gan James Freeman Clarke.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf—tudalen 102.*)*

Felly, tra yn gwrthod yr athrawiaeth dduwinyddol o Dduwdod Crist, nid ydym yn credu fod Crist yn llai dwyfol, ond yn fwy felly. Nid yw dweyd fod Crist yn Dduw, os nad ydym yn gwybod beth ydym yn feddwl wrth ddweyd hyny, yn dangos dim i ni o Dduw yn Nghrist, nac yn gwneyd unrhyw ddadguddiad o hono. Gweled rhywbeth yn Nghrist sydd yn ein dwyn at Dduw; a dyna beth y daeth ef i'w gyflawnu—dwyn dynion at Dduw. Mae dweyd ei fod yn berffaith Dduw, ac ar yr un pryd, ei fod yn berffaith ddyn, yn dyrysu y meddwl, ac yn ei adael yn y tywyllwch, ac nid yn y goleuni. Ond yr ydym yn gweled rhywfaint o Dduw yn Nghrist, pryd bynag y gwelwn fod y daioni uwchaf a welodd y ddaear erioed, prydferthwch sancteiddrwydd yr enaid mwyaf a anfonodd Duw i'r byd, yn ddadguddiad o'r Creawdwr, oblegyd ei fod yn dyfod yn agosach at y Creawdwr na neb arall; ac o ganlyniad, yn ei ddaioni ef, yn ei fywyd beunyddiol, yn nhangnefedd ei enaid, yr ydym yn gweled mwy a mwy o'r Duwdod yn barhaus.

Pan y derbyniwn ni ef fel dyn yn unig, yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr, ac etto, heb bechod, yna, yr ydym yn gwybod na fwriadwyd i ddyn i fod yn bechadur, ac na wnaeth Duw ddim o honi yn angenrheidiol i ddyn i bechu; a bod yr amser yn sicr o ddyfod pan y gwna dynion, wrth ganlyn Crist, godi uwchlaw pechod. Pan yn teimlo baich ein pechodau, ac yn methu ymddiried yn Nghariad Duw, yr ydym yn agor y Testament Newydd, ac yn gweled Crist yn dweyd wrth y fenyw bechadurus, "ac nid wyf finau yn dy gondemnio di; dos, ac na phecha mwyach," pan y cawn ef yn dweyd, "Ha, fab, cymmer gyssur, maddeuwyd i ti dy bechodau," heb osod i lawr un ammod, ond yn dysgu, y foment y deuwn ni mewn symlrwydd calon, gan edifarhau, mae Duw yn derbyn ein edifeirwch. Yn y Crist hwn a aeth oddiamgylch, gan wneuthur daioni, yr hwn oedd yn dyner ac addfwyn tuag at rai isel y ddaear, yr hwn oddiar ei groes a seliodd hynawsedd a charedigrwydd ei natur, pan y dywedai, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur"—yn y Crist hwn, fel mewn drych, yr ydym yn gweled gwyneb y Tad yn llawn cariad, trugaredd, a thosturi tuag at ei blant o ddynolryw. Felly, yr ydym yn cael mwy o Dduw yn Nghrist, ac nid llai; oblegyd nid ydym yn blino ein hunain gan y gwahaniaeth athronyddol a duwinyddol mewn perthynas i'w natur, ond yn ei dderbyn fel yr hyn a ymddengys ei fod yn mhob man, yn ddyn yn unig, dyn, yr hwn trwy ddawn cymhorth ac ysprydoliaeth ddwyfol oedd yn alluog i ddyfod mor agos at Dduw, fel, pan yr ydym yn edrych arno ef, yr ydym yn derbyn rhywfaint o oleuni y Duwdod fel mae yn cael ei adlewyrchu yn ei wyneb. Crist fel dyn yw y drych. Os mynwn ni, gallwn edrych ar y drych, a chadw ein llygaid yn sefydlog ar hwnw, yna, yr ydym yn gweled ei gymmeriad dynol; neu gallwn edrych trwy y drych, a gweled ei fod yn gyfrwng i Dduw i lewyrchu trwy ei feddwl a'i galon, ac felly, i'n llanw ni â theimlad o'r Duwdod. Yn y modd hyn, yr ydym yn alluog i weled mwy, ac nid llai, o Dduw yn Nghrist, na phe byddem yn dal yr olwg gyffredin.

Felly hefyd, trwy osod i'r neilldu bob golygiad duwinyddol a dirgelaidd am yr Ysbryd Glan, gallwn gredu mwy, ac nid llai ynddo. I ni mae Duw mor agos i'r galon ddynol, mor llawn o gariad llifeiriol at ddyn, mor barod i gyfranu ei ddoniau goreu i'w blant, fel mae'n ddeddf gyffredinol, pryd bynag yr ydym ni yn agor ein heneidiau iddo, gan geisio am ei ddylanwad a'i gymhorth, mae rhyw fesur o'r bywyd dwyfol yn llifo i mewn i'n heneidiau. Nid oes dim damwain gyda golwg ar ddeddf yr Ysbryd Glan; nid yw ef yn dyfod yn y man hwn heddyw, ac yn y man arall yfory—nid yw dylyn llwybr rhyw adfywiad crefyddol mawr; nid yw wedi ei gyfranu yn eithriadol i broffwydi, saint, a phroffeswyr crefydd. Mae yn mhob man, yn gymhwys fel mae yr haul yn llewyrchu, a'r gwlaw yn disgyn ar y drwg a'r da, pryd bynag maent yn barod i'w dderbyn. Felly, mae cariad Duw, gwirionedd Duw, a dylanwad ei Ysbryd sanctaidd yn disgyn i'r galon—calon y sant neu galon y pechadur, y dyn da a'r dyn drwg, yr anffyddiwr a'r heretic, y funyd y byddo, wrth edrych i fyny, yn agor ei

enaid, ac yn dweyd, "O Arglwydd, cynnorthwya fi i'th adnabod ti, ac i fod yn well dyn nag wyf fi yn awr." Yn y modd hyn, gallem gredu mwy, ac nid llai, yn yr Ysprydd Glan, trwy wrthod yr hen dduwinyddiaeth.

Gallwn hefyd, fel yr ymddengys i mi, gredu mwy yn y Beibl, ac nid llai, trwy beidio credu yn ysprodoliaeth pob gair o'r Beibl. Yr ydym yn credu fod y rhai a ysgrifenodd y Beibl yn ddynion ysprydoledig, wedi eu harwain a'u llanw gan allu Duw; ac yr ydym yn credu hyny oblegyd mawredd y Llyfr ynddo ei hun. Mae yn rhaid fod Duw ynddo, neu ni allasai fod wedi gwneyd y gwaith ag y mae wedi wneyd. Un o'r prif brofion dros ysprydoliaeth y Beibl yw ei fod wedi bod yn alluog i ddal i fyny yn ngwyneb deng mil o wyrdroadau i'r rhai mae dynion wedi ei ddarostwng er mwyn eu hamcanion eu hunain. Nid oes braidd un cyfeiliornad nac un anfadwaith nad oes ymgais wedi ei gwneyd i'w amddiffyn allan o'r Beibl. Ceiswyd, dro ar ol tro, i amddiffyn caeth-wasanaeth, amlwreigiaeth, a chospedigaeth trwy benyd (*capital punishment*) ar dystiolaeth y Beibl; mae ei awdurdod wedi ei osod yn erbyn seryddiaeth, daeareg, yn gystal a gwyddorau ereill, *ac etto, mae'r Beibl yn fyw.* Mae hyn yn brawf o'i ysprydoliaeth. Mae cymmaint o ddaioni ynddo, fel nas gellir ei osod i lawr gan ei gyfeillion ei hun; ac nid wyf yn gwybod fod gan un peth fwy o achos na'r Beibl dros ddweyd, "Gwared fi oddiwrth fy nghyfeillion." Ond nid ä y bregeth ar y mynydd byth yn hen; mae gweddi yr Arglwydd yn esgyn i fyny at Dduw oddiar wefusau miliynau o blant bob bore, ac yn cael ei lle o anrhydedd yn addoliad cenedloedd gwareiddiedig y byd; ac nid oes dim yn meddwl neu serchiadau dyn nad yw yn cael ei borthi a'i gyfnerthu allan o'r Beibl. Ac oblegyd ein bod yn gweled hyn, yr ydym yn credu ynddo. Ond nid ydym yn credu fod y Beibl wedi dyfod i lawr o'r nefoedd yn ysgrifenedig yn yr iaith Hebraeg a'r iaith Roeg, yna, wedi ei gyfieithu o'r rhai hyny i ieithoedd diweddar, ac wedi ei drosglwyddo i ni mewn ffurf dilwgr a digymmysg. Yr ydym yn credu ei fod yn agored i gyfeiliornadau yr holl ffordd; nad oedd y dynion a ysgrifenodd y Beibl ddim yn anffaeledig, er eu bod wedi eu hysprydoli; eu bod wedi gweled rhai gwirioneddau mawrion, ac wedi eu cyhoeddi, ac fod y Beibl wedi byw, ac y bydd byw er mwyn y gwirioneddau hyny. Ond nid oeddent yn rhydd oddiwrth gamgymmeriadau; o ganlyniad, mae'r Beibl yn lyfr dynol—ydyw, a'r llyfr dynol goreu sydd; a chan ei fod yn llyfr dynol, gallwn ei ddarllen yn rhydd, fel unrhyw lyfr dynol arall, ac wrth ei ddarllen felly, na dderbyniwch un peth yn y Beibl fel gwirionedd nas gallwch chwi weled fel gwirionedd, ac na dderbyniwch un peth yn y Beibl fel yn dda, os ymddengys yn wrthwynebol i'ch teimlad moesol. Yn y modd hyn, fe'ch cynnorthwya chwi fil o weithiau yn fwy na phe byddech yn ei wneyd yn feistr arnoch, a'ch meddwl yn gaethwas iddo. Y Beibl, fel y Sabbath, a wnaed er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Beibl.

Gallwn gredu hefyd yn fwy cyflawn mewn pechod, a drwg pechod, na phe buasem yn derbyn yr athrawiaethau cyffredin. Mae y syniadau cyffredin am bechod yn syniadau duwinyddol, ac mae ganddynt

swn duwinyddol ac athronyddol pan y clywch hwy yn cael eu crybwyll. Nid ydynt yn ymddangos fel yn dal cyssylltiad â bywyd neu ymddygiad dynol. Pan y dywedir wrthym fod pechod wedi dyfod i'r byd trwy Adda, a'n bod ninau mewn rhywfodd neu gilydd wedi dyfod yn bechaduriaid trwy Adda, a bod pechod Adda yn rhywfodd neu gilydd yn cael ei gyfrif i ni, a'n bod ni yn rhywfodd neu gilydd yn etifeddu euogrwydd pechod oddiwrth ben-cynnrychiolydd yr hiliogaeth, a'n bod ni yn hollol lygredig, ac er hyny, yn rhwymedig i wneyd daioni, ac yn bechadurus iawn, os gwnawn ddrwg—nas gallwn wneyd dim o honom ein hunain sydd yn iawn, etto i gyd, mae dyledswydd arnom i'w wneyd—pan y dywedir wrthym bethau o'r fath hyn, beth yw yr effaith ar y meddwl gyda golwg ar bechod? Yr effaith yn gyfangwbl yw peru i ddyn i feddwl fod pechod yn fater o athroniaeth, â'r hwn nid oes gyda ni ddim i'w wneyd, ond feallai yn y cwrdd dydd Sul. Ond pan yr ystyriwn mai pechod yw yr hyn sydd yn ein gwahanu ni oddiwrth y gwirionedd a'r cariad dwyfol—fod pechod yn dywyll, fod pechod yn hunanoldeb—ac oblegyd fod Duw yn eirwir, a Duw yn gariad, yna, pryd bynag yr ydym ni yn hunanol, yn dwyllodrus, yn annghyfiawn, yna, yr ydym yn gwahanu ein hunain oddiwrth y cyfaill dwyfol yma, ac yn myned i lawr, ac nid i fyny, yn ngraddfa bodolaeth—yna, gallwn ddeall drwg pechod.

Yn mhellach, yr wyf yn credu y gallwn ni, fel Undodiaid, gredu mwy mewn cosp, ac nid llai na'r rhai ydynt yn credu yr athrawiaeth dduwinyddol. Nid ydwyf yn credu mewn cosp dragwyddol, oblegyd ymddengys i mi fel yn ddianrhydedd ar Dduw. Athrawiaeth cosp dragwyddol, fel y delir hi yn gyffredin, yw hyn—fod dyn yn cael ei anfon i'r byd yma gan ei Greawdwr yn y fath gyflwr, fel ag y gall gondemnio ei hun i ddinystr tragwyddol trwy yr hyn a wna yn y byd, fel y gall gyrhaedd sefyllfa yn yr hon y bydd yn rhaid iddo ddyoddef am byth heb unrhyw allu i ddiwygio na dychwelyd. Yn awr, nid oes un dyn—nid wyf yn dweyd dyn da, nid wyf yn son am sant o ddyn—ond nid oes un dyn gyda theimladau dynol cyffredin a fyddai yn foddlawn i gael ei gyhuddo o'r fath beth ag a briodolir i'r Hollalluog Dduw. Mae yn un o'r pethau mwyaf trist yn y byd fod duwinyddiaeth yn gallu gwyrdroi teimlad cyffredin y galon ddynol yn y fath fodd, fel y mae dynion yn gallu priodoli i'r tynerwch a'r cariad Anfeidrol yr hyn a ystyriant yn waradwyddus, pe clywsent am dano yn cael ei gyflawnu gan un o'u cyd-ddynion.

Felly, yr wyf fi yn dweyd y gallwn ni gredu mwy ac nid llai, pan y dywedwn fod cosp yn dylyn pechod fel y feddyginiaeth a fwriadwyd er mwyn ei iachâd; ac er fod uffern yn y byd dyfodol yn gystal a nefoedd, mae y nefoedd a'r uffern yn angelion Duw, yn weinidogion ei gariad, wedi cael eu gosod er mwyn ein daioni, er mwyn ein dwyn yn ol at Dduw, ac nad oes un gosp yn cael ei gweinyddu ar unrhyw blentyn i Dduw yn y byd hwn, nac mewn un byd arall, nad yw wedi ei fwriadu gan Dduw i'w gynnorthwyo a'i achub. Wrth gredu hyn, gallwn gredu mewn cosp yn y dyfodol fel yma, a pharhau hefyd i gredu yn naioni perffaith ein Tad o'r Nef. Yn y teimlad yma, gallwn

gredu mewn cosp fel moddion diwygiad. Nid ydym yn credu fod penarglwyddiaeth Duw mor gyfyngedig fel nas gall ei gariad gofleidio ei blentyn crwydredig ar ol iddo farw. Nid ydym yn credu fod Duw yn frenin ar un rhan o'r cydfyd yn unig, a'i fod yn gadael i'r diafol, a chythreuliaid, a phechaduriaid, i gael eu ffordd eu hunain mewn rhan eang arall o hono. Yr ydym yn credu fod breniniaeth Duw yn rhedeg trwy yr holl fydoedd, ac y llwydda Efe, yn y diwedd, i waredu yr holl fydoedd. Yn y modd hwn y gallwn gredu mwy yn nghariad gwaredigol y Duw mawr ac nid llai, gan y credwn ei fod yn ymestyn i fydoedd ereill heblaw y byd hwn. *Cyfd.* UNDODWR.

(*Pw barhau.*)

YCHYDIG O HANES BWDA.

GAN FLORENCE GLOVER.

YCHYDIG amser yn ol, cynnaliwyd Arddangosiad Japanaidd yn Llundain, lle yr oedd rhestri o dai a masnachdai yr un fath yn union ag a welir yn Japan, ac yr oedd pobl y wlad hono yn cerdded oddiamgylch yn ngwisgoedd cymhen eu gwlad, a themi Bwda, yn yr hon y gallasent addoli yn ol eu crefydd eu hunain. Gall fod llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn gyfarwyed â rhai o'r pethau a ddangosid ar werth yn y siopau, megys gwyntylloedd (*fans*) Japanaidd, a chysgodleni ac amryw bethau ereill tebyg; ond yr oedd yno hefyd lawer o bethau newydd a dyeithr yn y darlun byw yn gosod allan fywyd a dulliau ac arferion Dwyreiniol. Anhawdd gwybod pa nifer o'r ymwelwyr a wyddent rhyw lawer, er enghraifft, am Bwda, yr hwn oedd yn cael ei addoli yn ddyddiol yn y deml fechan. Efallai mai ychydig iawn; ac etto, yn mhlith llawer o bobl heblaw y Japaniaid, y mae Bwda yn dal yr un lle o ddysgawdwr ac arweinrdd ag y mae Crist i ni. Onid ydych yn meddwl, gan hyny, ei fod o werth i ni ymofyn er cael allan pwy oedd, ac yn mha le y bu byw? Oblegyd teimlwn yn sicr ei fod yn dwyn cymmeriad rhagorol, neu ni fuasai ei ddylanwad wedi cyrhaedd mor bell, nac wedi parhau cyhyd.

Wel, y mae ysgrifenydd Seisnig, Edwin Arnold, yr hwn fu byw beth amser yn y Dwyrain, ac a ddysgodd pa fodd i adnabod a gwerthfawrogi y bobl yno, wedi ysgrifenu pryddest brydferth yn nghylch Bwda, yr hwn mae yn ei alw yn "Oleuni Asia;" ac oddiwrth y bryddest hon, y mae yn ddichonadwy i ni ddysgu llawer iawn yn ei gylch, a'r gwaith a gyflawnodd tra fu byw yma ar y ddaear. Ymddengys, gan hyny, fod Bwda, yr hwn oedd yn byw mor bell yn ol a chwe' chant o flynyddau cyn Crist, yn dywysog geni, oblegyd yr oedd ei dad yn frenhin Kapilvastu, gwlad India ogleddol, gwlad ag oedd ganddi fel un o'i chyffiniau fynyddoedd prydferth wedi eu gorchuddio gan gopäau gwynion mynyddoedd yr Himalaya.

Bwda, yr hyn sydd yn golygu "y doeth," oedd yr enw roddwyd iddo wedi ei farwolaeth; ond yn y dechreu, gelwid ef Tywysog Siddártha; a chan mai unig fab oedd, ac iddo ddangos yn foreu iawn arwyddion o ddealltwriaeth a gwybodaeth fawr ac eang, gellwch fod yn sicr i'w dad ei garu ef yn fawr, a gobelthiai y buasai, ryw ddiwrnod, yn dyfod yn frenhin mawr a gallnog.

Ond fel tyfodd Siddártha i fyny, ac y cafodd ei gymmeriad ei ddadblygu, gwelid, er ei fod bob amser yn ddewr a diofn fod ganddo dymher fwynaidd ryfeddol, a'i fod yn dyner a chariadus neilldnol at ei gydchwareuwyr ac at greaduriaid mud. Y brenhin, yn sylwi ar y pethau hyn, ac ar feddylgarwch anarferol y bachgen, a ddaeth dipyn yn bryderus, oblegyd yr oedd proffwydoliaeth wedi myned allan, ar enedigaeth Siddártha, y buasai y plentyn yn dyfod nid yn frenhin rhyfelgar, yr hwn fuasai yn ychwanegu at ei diriogaethau, ond yn ddysgawdwr mawr a doeth dynion; ond gan i hyn ymyraeth á gobeithion uchelgeisiol uchelgeisiol ac uchelfrydig y brenhin, gwnaeth yr oll a allai i ochelyd y cyfryw. Penderfynodd, gan hyny, i gadw y tywysog cyhyd ag y gallai oddiwrth bob gwybodaeth ddichonadwy yn nghylch clefyd a galar o unrhyw fath, ac i roddi iddo bob peth allasai cyfoeth ei bwrcasu neu ddychymmyg ei ddyfeisio i wneyd ei fywyd yn ddedwydd a boddlongar. Adeiladwyd iddo balas ardderchog yn nghanol y ddinas wedi ei amgylchynu gan erddi eang a phrydferth i'r olwg, tudraw i gyffiniau yr hon ni chaniateid iddo grwydro, rhag y byddai i ryw olygfa alarus dristáu ei natur gydymdeimladol; ac yma yn mhlith cyfeillion hoenus a gwych yr ehedai yr oriau yn gyflym.

Ond mynych iawn y llanwai rhyw hiraeth aflonydd galon Siddártha i basio trwy y clwydi a amgylchynent erddi ei balas. Hiraethai yn ddwys i weled beth orweddai tuallan iddynt, a dysgu rhywbeth yn nghylch y bobl dros y rhai oedd i deyrnasu ryw ddydd. Gan hyny, begianodd ar y brenhin i ganiatáu iddo yru, unwaith, trwy y ddinas, fel y gallai weled, meddai ef, pa fodd oedd y rhai nad oeddynt frenhinoedd na thywysogion yn byw; a phan roddwyd caniatád iddo, aeth allan yn llawen.

Y brenin, gan ofni y buasai y gwahaniaeth mawr rhwng gorwychder a phleseran y palas, a bywyd dyddiol o lafur caled a thlodi, yn synu Siddártha, a roddodd orchymmyn am i'r ddinas gael ei haddurno i'r graddau pellaf, er anrhydedd ymweliad y tywysog, fel na buasai un awgrym o'r galar na wyddai efe ddim am dano ei gyrhaedd, a dyfod o dan ei sylw. Ufuddhawyd i'r holl orchymmynion yma; a phan ymddangosodd Siddártha yn mhlith ei bobl yn ei gerbyd, croesawiasant ef gyda banllefau llawen; a phan yn gweled pawb o'i amgylch yn ddedwydd, teimlai yntau mor llawen a phrydferth oedd bywyd. Ond fel oedd y meddwl dymunol yma yn llanw ei feddwl, cafodd drem am foment ar gardotyn tlawd ac anafus, yr hwn, gan nad oedd wedi clywed am orchymyn y brenhin, oedd wedi myned allan i'r ddinas fel arferol i ofyn am elusen. Nid ymddangosodd ond megys am foment, oblegyd llusgwyd ef yn uniongyrchol o'r neilldu gan y rhai a gofiasant orchymyn y brenhin; ond yr oedd y tywysog wedi gweled digon i'w

lanw ag arswyd a digalondid. Yn nghanol yr holl ddedwyddwch, darfu i ddrychiolaeth fel yr ymddengys o ddyoddefaint ymddangos iddo, a throdd at ei gerbydwr i ofyn ystyr y peth. Atebodd nad afiechyd oedd wedi peru fod y dyn yn ymddangos mor deneu a llwyd, ac fod oedran yn pylu y llygaid ac yn gwynu gwallt pawb; a chyda theimlad newydd o drueni a thosturi yn ei galon, dychwelodd Siddârtha i'w balas.

Ond pan gauwyd elwydi y palas prydferth hwnw o'i du ol, ni allent gau allan o'i feddwl beth oedd wedi ei ddysgu mewn perthynas i nerth diflanol ieuenctid, fel y mae y blynyddoedd yn myned heibio i wendid ac oedran; ac yn fuan, begianodd i'w dad ganiatâu iddo ymweled â'r ddinas drachefn, ac nad oedd dim darpariadau i gael eu gwneyd er ei dderbyniad, oblegyd dywedai, os gallassai ef weled pethau fel y maent, y byddai yn fwy boddlongar, neu, o leiaf, yn ddoethach.

Ar yr ail ymweliad yma, pan oedd pob peth yn myned yn mlaen fel arferol, gwelai lawer o olygfeydd trist, pa rai yr oedd yn anmhossibl i fyned trwy y ddinas fawr heb eu gweled; a phan yn cyfarfod â chwmpeini o alarwyr, y rhai oeddynt yn cymmeryd corff cyfaill ar elor, gofynai beth olygai y golygfeydd yma o alar, a dywedwyd wrtho mai arwyddion oeddynt o alar allanol, oblegyd fod yr hwn orweddai yn ei arch mor dawel a llonydd yn *farw*, ac na fuasai byth mwyach yn siarad â'r rhai a garai ef, a'r sawl a'i carent ef. Ac yn awr, yn wir, ymddangosai i Siddârtha fod bywyd yn gyflawn o dristwch. Nid oedd un tristwch wedi syrthio i'w ran ef hyd yma, ond darfu i ddyoddefaint ereill gyffwrdd ag ef yn llym, a theimlai ei hunan mor analluog i'w cyssuro na'u dyddanu.

Ai oblegyd ein bod ni yn cyfarwyddo â'r pethau yma nad ydynt yn effeithio arnom ni yn yr un modd? Nage, y mae gyda ni lawer gwell rheswm na hyn. Nid yw hen oedran a marwolaeth yn ddychrynllyd i ni yn awr, am y credwn ni mai y corff yn unig sydd yn gwisgo allan ac yn cael ei osod o'r neilldu pan ydym yn marw, ac na all ein heneidiau fyth farw; ac er ein bod ni yn teimlo fod afiechyd a chlefyd yn alarus, yn wir, credwn y gall y fath gymmylau duon gynnwys pelydrau dysglaer ynddynt, oblegyd gwelwn hwynt yn fynych yn dadblygu i rinweddau goddidog a phrydferth—amynedd, a thosturi, a thrugaredd. Ond yn y dyddiau boreu yma o hanes dyn, pan fu Tywysog Siddârtha yn byw, ni ddychymygid ond yn niwlog am y pethau hyn. Buassi offeiriadon Kapilawastu yn gallu dweyd wrtho, yn wir, fod rhai galluoedd yn fwy nerthol na gallu dyn; ond pe gofynai beth oedd y rhai hyny, buasent yn ateb, yr haul tanllyd, y gwynt gerwin, yr awel oer a mwynaidd, a holl alluoedd natur, pa rai yr ymddengys fod dyn bob amser ac yn mhob man yn eu haddoli, pan ddechreuodd awyddu am rywbeth rhagor na chael allan ymborth a lletty.

Ond ni foddisai addysgiadau yr offeiriadon ddim o Siddârtha. Teimlai ef fod uwch gwirionedd yn nghylch bywyd a marwolaeth etto i'w gael allan; a phan gellesid ei gael, y buassi yn dwyn cymhorth, a chyssur, a dyddordeb, i ddynolryw. Yn myfyrio ac yn pwyso y

pethau hyn yn ei feddwl, ac er gwneyd ei oreu i roddi fyny y bywyd dyddan a dyfyr oedd hyd yma wedi ei fyw, a chrwydro yma a thraw yn mha gyfeiriad bynag y buasai yr yspryd yn ei dywys yn ei awydd i gael y fendith y ceisiai am dani; wedi rhoddi ffarwel ddystaw i'r sawl a garai mor anwyl, ac oddiwrth y rhai y cafodd ei fod yn beth caled i ymadael, aeth allan yn ddirgelaidd ar ei daith i ddysgu a oedd dynion doeth gwledydd ereill wedi cael allan y gwirionedd yr hiraethai ef am dano.

Gan nad beth all fod yn ddyèithr i ni, neu ddim, yn wir, i ni yn bresenol, yn y grefydd a elwir Bwdaidd, teimlwn ei fod yn beth gwir rhagorol ynddo ef, yr hwn a'i sylfaenodd i roddi i fyny fywyd o hapusrwydd a phleser, fel y gallai ei gyssegru at wasanaethu ereill. Ar y dydd hwn, gosodwn ni anhunanoldeb uchel yn mhlith y rhinweddau sydd yn rhaid o fod yn eiddo y sawl sydd yn dymuno adeiladu i fyny gymmeriad rhagorol, ac yma, bid sicr, y mae gyda ni esiampl ddysglaer o hono sydd yn dysgleirio allan i ni oddiwrth oleuni niwlog oesau pell y gorphenol.

Dywedir wrthym i Bwda grwydro am flynyddau lawer yn ei ymchwiliad ar ol gwirionedd, a llawer o galedi a ddyoddefodd efe; a phan oedd y dydd yn hir, a phan nad oedd yr un gobaith, neu ychydig obaith, iddo gael allan yr hyn y ceisiai am dano, rhaid yw ei fod wedi cael ei demtio yn dost i ddychwelyd i'w gartref cyssurlawn a chyflawn o ddanteithion. Ond yn y diwedd, gwobrwywyd ei ddefosiwn, a daeth i'w galon y grediniaeth (a'r argyhoeddiad gallwn feddwl) y buasai galar y byd, ryw ddiwrnod, i derfynu mewn dedwyddwch; ac er iddo barhau i ddal fod yr offeiriadon yn iawn mewn dywedyd fod yn rhaid i eneidiau gael eu geni drachefn ar y ddaear, credai fod pob pechod fuasai dyn yn ei orchfygu, a phob gweithred fuasai yn cael ei chyflawni, yn puro yr enaid hyd, yn y diwedd, na fyddai angen am fywyd daearol pellach, ac yna y buasai Nirvana, neu orphwysfa berffaith, i gael ei ohyrhaedd.

Cyssegrodd Bwda ei fywyd i wasanaeth ereill, ac o ganlyniad, wedi iddo weithio allan y ffydd grefyddol hon yn ei feddwl ei hun, dechreuodd ar unwaith i'w phregethu i ereill. Gwrandawodd y bobl yn awyddus iawn ar y geiriau a lefarai yn nghylch amcanion bywyd; ac er ei fod wedi ei amwisgo yn y wisg fwyaf syml, yr oedd ymddangosiad ei wynebpryd mor gariadus a rhagorol, fel yr oedd mor argraffiadol ag oedd ei eiriau.

A pheth ddaeth o Bwda? gellir gofyn. A oedd ef yn alluog i weithredu i fynu i feddylddrych uchel ei ddyndod boreuol? Oedd, oblegyd trwy ei holl oes ymdrechodd fod yn wir a ffyddlon i'r hyn a ystyriai ef uwchaf a goreu, ac y mae ysgrifenwr enwog, yr hwn a astudiodd ei fywyd, wedi dweyd am dano:—"Nid oes ar ei holl fywyd un anaf; ni fethodd ei hunan-ymwadiad, ei gariad, a melusder ei dymher, am gymmaint a moment."

Y mae dysgawdwr cryfach arall, yr hwn sydd wedi datguddio yn fwy amlwg amcanion y Tad Nefol, wedi byw wedi hyny; ond gallwn fod yn sicr, pe buasai yr Iesu yn adwaen Bwda, y buasai yn rhoddi

iddo ei law mewn cymdeithas gariadus, oblegyd yr oedd y ddau yn awyddus i arwain dynion i fyny a rhagddynt.

Ni allai y darllenydd wneyd yn well, gyda golwg i gael gwybodaeth pellach, nag ymgynghori â chyfrol fechan sydd wedi ei pharotoi gan T. W. Rhys Davids, a'i chyhoeddi am 2s. 6ch. gan y *Society for Promoting Christian Knowledge.* L.

GWEDDI.

Y MAE dynion bob amser, ac o dan bob amgylchiadau, yn mhlith pob cenedl, yn mhob stât o wareiddiad, wedi arfer gofyn am gynnorthwy o'r byd anweledig. Pa fodd mae i ni esponio'r gwirionedd hwn? Dywedir weithiau fod yr arferiad yma i weddio yn tarddu allan o wendid ac ofergoeledd dynol. Pan na byddo dynion yn alluog i helpu eu hunain yn un ffordd arall, eu bod yn troi i geisio am gynnorthwy o'r byd anweledig.

Ie, ond paham y mae dynion yn parhau i ofyn, os nad yw'r hyn a ofynant am dano byth yn dyfod? Os yw profiad yn dysgu nad oes un daioni drwy weddio, paham y mae'r twyll yn parhau? Paham na byddai'r arferiad o weddio yn cael ei gordyfu, ac yn cael ei gadael ar ol? Y mae pethau ffol ereill yn cael eu dinoethi, ac fel canlyniad, y maent yn dihoeni, ac yn marw. Ond y mae hyn yn aros, ac y mae wedi aros am filoedd o flynyddau. Gweddi yw enaid pob crefydd. Mae pob crefydd yn dysgu gwerth a dylanwad gweddi. Ac y mae Iesu Grist yn dysgu y ddyledswydd o weddio, a'r nerth sydd mewn gweddi.

Dywedir wrthym fod y Bwdiaid yn talu sylw manwl iawn i weddi. Hefyd, yn mhob gwlad Fahometanaidd, ar yr awr weddi, gweddia'r morwr ar fwrdd ei long, y masnachwr yn ei fasnachdŷ, y gweithiwr cyffredin yn ymyl yr heol, neu yn rhyw fan arall. Am ychydig funydau, y mae pob gwaith yn cael ei osod o'r neilldu, a'r bobl oll yn troi eu meddyliau i fyny i fyd anweledig y Duwdod. Mewn gwledydd Pabyddol, mae dynion, pan yn myned heibio eglwys, yn troi i fewn i weddio, ac yna'n myned allan gyda mwy o heddwch a thangnefedd yn eu heneidiau. A thebyg yw fod y dydd yn d'od pan y bydd yr un peth yn cymmeryd lle mewn gwledydd Protestanaidd.

Nid oes dim un ddeddf yn eael ei thori gan Dduw, pan y mae efe yn ateb ein gweddiau ni. Sylwn ar ddysgeidiaeth yr Iesu ar y pwnc hwn. Dysga ef fod yn rhaid i ni, yn y lle cyntaf, fod mewn cyflwr meddwl Cristionogol, "Os aroswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi." "Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw i (h.y., yn fy yspryd i), efe a'i rhydd i chwi."

Gall ammodau gweddi effeithiol gael eu symio i fyny yn y fel yma —1. Mae'n rhaid i ni weddio mewn gwirionedd, h.y., y mae'n rhaid i ni ofyn am yr hyn ydym ni, mewn gwirionedd, yn ddymuno am dano. 2. Mae'n rhaid i ni weddio mewn yspryd, h.y., y mae'n rhaid i ni

ofyn am y peth iawn. 3. Y mae'n rhaid i ni ofyn mewn ffydd, gan gredu y bydd i'n gweddiau gael eu clywed a'u hateb.

I. Mae'n rhaid i ni ofyn am y pethau hyny ag ydym ni ein hunain yn teimlo eu hangen—nid y pethau hyny ag y mae rhywrai ereill yn teimlo angen am danynt, neu y mae gweddi'n myned yn ffurf wag. Gweddiau didwyll oedd yn cael eu cymmeradwyo gan yr Iesu, ac yn gyffredin, rhai byrion. Gweddi debyg i weddi'r Publican hwnw, yr hwn a ddywedodd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur." Bydded i ni bob amser i ofyn am yr hyn ydym yn ddymuno—nid yr hyn ydym ni yn feddwl ddylem ni ddymuno, neu'r hyn y mae ereill yn ddymuno am dano—nid yr hyn sydd arferol o gael ei geisio. Mae yn rhaid i ni gael gwirionedd yn sylfaen i'n gweddiau.

II. Mae'n rhaid i ni weddio mewn yspryd, h.y., mae'n rhaid i ni weddio am yr hyn sydd wirioneddol dda. Y mae arnom bob dydd o'n bywyd eisieu gallu mewnol ac ysprydol, er mwyn cyflawnu ein galwedigaethau cyffredin yn y byd yma. Y mae arnom eisieu cyfran newydd yn ein heneidiau o dymher dda, doethineb, dewrder, ffyddlondeb, heddwch, ffydd, gwyleidd-dra, cymmedroldeb. Gallwn bob amser geisio am i yspryd da gael ei dywallt i'n calonau. Y mae eisieu y bara beunyddiol hwn arnom yn fwy na dim arall. Yn ein gwaith yn ceisio am hyn, gallwn fod yn sicr ein bod yn gofyn am yr hyn sydd iawn, a gallwn, gan hyny, ofyn mewn ffydd.

Yn ein gwaith yn gofyn am unrhyw beth arall, nid ydym yn sicr ein bod yn gofyn am y peth goreu. Nid oes dim niwed mewn gweddio, a gweddio'n daer ar i Dduw achub bywyd un a gerir yn fawr genym; ond ar yr adegau yma, mae'n rhaid i ni geisio ychwanegu, fel y gwnaeth Iesu, "Nid fy ewyllys i, ond eiddot ti, a wneler," o herwydd nid ydym ar y pryd yma'n sicr ein bod yn ceisio am y peth goreu. Ond pan y byddom yn gofyn am fendith fewnol, am allu i wneyd daioni, gallwn fod yn sicr fod y weddi hon mewn cydgordiad à deddf gyffredinol Duw, a gallwn fod yn sicr na bydd iddi byth gael ei gwneyd yn ofer.

Pan byddom ni yn ddidwyll yn gweddio am yr hyn ydym ni mewn gwirionedd yn ei ddymuno, ac yn gweddio yn yspryd Crist, yna, byddwn yn alluog i wirio, bob un drosto ei hun, werth a dylanwad y gallu ysprydol hwn.

Dywedir weithiau "mai gweithio yw gweddio," ond nid yw y dywediad yna yn gywir. Pan yn gweithio, mae'r meddwl yn cael ei droi at wrthddrychau allanol; ond pan yn gweddio, yr ydym yn troi y meddwl i fewn at yr Yspryd a Duw. Y mae'r ddau beth yn gwneyd i fyny fywyd cyflawn. Pan yn gweithio, teimlad o gyfrifoldeb sydd yn ein meddiannu; pan yn gweddio, teimlad o ymddybyniad sydd yn ein meddianu. Y mae pob gwir weddi'n arwain i waith, ac y mae pob gwaith da yn arwain i weddi.

Y mae gweddi ffurfiol yn myned heibio, ond y mae gweddi mewn yspryd a gwirionedd yn cynnyddu o ddydd i ddydd, ac y mae'r hwn sydd yn dysgwyl wrth yr Arglwydd yn adnewyddu ei nerth o ddydd i ddydd. C.

HENAINT.

Oer henaint ddaw'n erwinol—i lesghau
Yr hwylus gorff nerthol;
A'i flod'yn haf lwyda'n ol,
A'i allu'n ddinerth hollol.
Cawn i'n rhan, cyn myn'd dan do,
Gan henaint ein gwenwyno;
Arwyddion hen a roddant
Frathiadau a gwaeau gant.
Hen wr gwan yn ei annedd
Deimla'n flin ar fin ei fedd;
Dan fawr glwy' y tramwya
Wrth ei ffon, a'i nerth hoff ä;
Oeri 'i draed wna y gwaed gwan,
A gwelwi 'i olwg wiwlan,
A'i olwg daen â niwlen,
Yn bwl bydd heb haul ei ben.
Henaint sydd bob dydd yn d'od
A'i arfau i'n cyfarfod;
Aelodau'n cyrff galedant,
Anadl byr try'n hoedl i bant.

Nodyn o henaint ydyw,
Boddi'r glust â byddar glyw;
Arwydd hen o ddirfawr ddig
Ydyw y pen crynedig;
Y brithwyn wallt sy'n brathu
Teimlad monwes gynhes gu;
Oer yw agwedd gwr egwan
Ar ei stol wrth wres y tân.
Gelwg hen yw gên hir, gu,
A moel, heb ddannedd malu;
Yn y rudd y gwelir ol
Rhych henaint drwy ei chanol;
Nerth y cof yn annghof ä—
Oer henaint a'i trywana;
Y deml hon, heb gwynion gynt,
Sydd heddyw'n orsedd iddynt.
Parchwn hen rhag trueni—a chyssur
Achosa ddaioni;
Yn union gall dd'od ini—arw haint,
Trwy nwydau henaint er ein dihoeni.

Trebannos. H. MORGAN.

EBION O IOWA.

COSPEDIGAETH PECHOD.

RHIF II.

(O'r "Drych" Americanaidd.)

UN peth pwysig iawn i sylwi arno o berthynas i'r pwnc hwn yw fod

HOLL GOSPAU DUW YN NATURIOL.

Nid oes dim mympwyol, cyfnewidiol, nac ansicr ynddynt. *Rhaid* iddynt gymmeryd lle bob amser yn ol *natur* pethau. Mae holl ddeddfau Duw yn hunan-weinyddol *(self-executive)*, ac nid oes modd i unrhyw droseddwr o honynt ddianc rhag y gyfiawn gosp a haedda mewn unrhyw amgylchiad, mwy nag y gall y neb a roddo ei law mewn tân beidio llosgi. Ac y mae mor annichonadwy dianc heb y gosp ddyledus yn y byd *moesol* ag ydyw yn yr anianyddol. Mae ffeithiau amlwg yn profi hyn yn gystal ag iaith y Beibl—"Duw a dâl i bob dyn yn ol ei weithred." "Derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth." "Fel y derbynio pob un y pethau wnaethpwyd yn y corff." Pwy bynag a ddywedo gelwydd, a enllibio ei gymmydog, neu a wnelo unrhyw gam, "efe a dderbyn am y cam a wnaeth, ac nid oes derbyn wyneb," bydded efe aelod eglwysig neu "ddyn o'r byd." Nid

oes gan Awdwr natur ddim *favourites* mewn byd nac eglwys, yn mysg saint na phechaduriaid, ar y rhai na weinydda efe y gyfiawn gosp a haeddant. Os yn anianyddol y troseddir, yn anianyddol y cospir. Os ysprydol y trosedd, ysprydol fydd y gosp bob amser. Nid am ddweyd anwiredd y caiff dyn y cryd-gymmalau, ond am droseddu deddfau iechyd. Mae pob cosp yn ol natur y trosedd. Pe sylwai dynion ar hyn, gwaredid y byd rhag llawer iawn o ofergoeledd. Ac y mae yn amlwg fod holl ddeddfau moesol Duw yn cydio yn gospawl yn mhob un a'u troseddo, y foment y troseddir, megys y mae ei ddeddfau anianyddol yn gwneyd. Dweyd anwiredd noeth am yr Arglwydd yw dweyd nad yw yn ymddwyn yn gyfiawn heddyw at unrhyw ddyn. *Rhaid* i Dduw fod yn gyfiawn bob munyd yn y byd yma tuag at bawb, megys y bydd efe byth mewn byd arall. Mae ei drugaredd a'i gyfiawnder yn gweithredu yn berffaith tuag at bawb yn awr, a byddant felly byth. Nid oes dim un gair yn y Beibl yn mynegu, yn ol fel y pregethir mor fynych, fod Duw yn drugarog heb weinyddu cyfiawnder yn y byd yma, ac y bydd efe yn gyfiawn heb fod yn drugarog yn y byd a ddaw. Gwir fod rhai cospau yn cymmeryd amser i addfedu ; ond nid yw y "ddamnedigaeth yn hepian" o'r foment y troseddir. O, mor bwysig yw dysgu hyn i bawb, yn lle rhoi ar ddeall mai yn bell yn y byd arall yn unig y cospir pechod ! Dyna un peth hollol sicr, na all neb byth yn llywodraeth anianyddol a moesol Duw osgoi neu ddianc rhag cael cyfiawnder. Beth bynag yw ystyr yr ymadroddion, "Maddeuant a chyfiawnhad," amlwg yw nad ydynt yn cynnwys gwaredigaeth rhag cyfiawn gosp naturiol y trosedd, canys nid oes neb trwy na chyfiawnhad na maddeuant o fath yn y byd yn dianc rhag canlyniadau naturiol eu troseddau. Er enghraifft, nid oes na chyfiawnhad na maddeuant a wareda ddyn rhag dyoddef y canlyniad, pan lynco efe wenwyn, ac y mae yr un modd yn hollol pan droseddir deddf yr enaid, fel y dyoddefir pan droseddir deddf iechyd y corff. Yn yr ystyr o feddu ewyllys da tuag at y troseddwr, a dymuniad am ei leshad, mae Duw yn faddeugar bob amser tuag at bob pechadur ; ond am attal y gosp naturiol sydd yn canlyn y trosedd, nid yw Duw byth yn gwneyd hyny gydag unrhyw bechadur. A pheth arall amlwg iawn yw fod cospedigaeth pechod

YN ANNHROSGLWYDDADWY.

Ni all y diniwed byth ddyoddef cosp yr euog yn lle yr euog mewn llywodraeth gyfiawn. Fel y sylwa Dr. Bushnell—"Everlasting justice forbids any commutation of places in punishment." Nid cael hyn a hyn o ddyoddefiadau o rywun, na waeth pwy, yw cyfiawnder ; yr *euog* yn unig a all cyfiawnder gospi. Peidied y darllenydd a chamddeall yn y fan yma. [Diffyg yn y copi yma.]

* * * * * * *

ffeithiau amlwg yn profi hyn. Gwir y dyoddefodd Crist fwy nag a wyr neb dros bechaduriaid—"y cyfiawn dros yr annghyfiawn," "fel y dygai ddynion at Dduw." Dyoddefodd yr hyn a all y da ddyoddef,

er mwyn lleshad goreu y troseddwr, ac er mwyn ennill calon y troseddwr i garu y Duw da sydd yn rhwym o gospi yr euog. Ond am gymmeryd gwir uffern gyfiawn yr euog arno ei hun, annichonadwy yw hyny. Rhaid i bob un ddwyn ei faich ei hun. Nis gall y naill fôd moesol byth gymmeryd cosp gyfiawn bôd moesol arall yn ei le ef. Byddai hyny y peth croesaf i gyfiawnder a allai byth gymmeryd lle.

Pan lynco dyn wenwyn marwol, nis gall neb ei waredu trwy lyncu y gwenwyn hwnw, neu wenwyn cyffelyb yn ei le ef. Gall cyfaill neu feddyg wneyd llawer dros y dyn a lyncodd y gwenwyn; gall golli ei gwsg a dyoddef, a llafurio yn galed, er mwyn ei waredu, ond ni all ddwyn ei gosp ef. Rhaid i lyncwr y gwenwyn trwy ryw foddion naturiol gael y gwenwyn allan, a graddol wellhau oddiwrth ei effeithiau, er holl lafur a lludded y meddyg drosto, ac er ei fwyn ef. Ac felly yn hollol y mae yn achos achubiaeth pechadur oddiwrth gospau pechodau. Mae Crist wedi ac *yn* gwneyd llawer drosom ni bechaduriaid, er mwyn ein gwaredu o feddiant uffern; ond nid yw yn dyoddef uffern neb yn lle y sawl a bechodd. Rhaid i'r pechadur ei hun ddyoddef hyd nes trwy help ei feddyg ysprydol y graddol waredir ef oddiwrth effeithiau marwol ei drosedd. Mae iachawdwriaeth *by proxy* yr un fath a chospedigaeth *by proxy*—yn annichonadwy. Megys na all neb gael ei ddigoni trwy i rywun arall fwyta ei giniaw yn ei le ef, felly hefyd ni all neb fod yn dda trwy i rywun arall fod yn dda yn ei le ef, ni all neb byth gael Iesu Grist na neb arall i gymmeryd cosp ei drosedd oddiarno ef. Diolch i Dduw, y mae modd "cwbl iachau y rhai trwy Grist sydd yn dyfod at Dduw;" ond ar ol dyoddef yn ol y trosedd, a thrwy foddion graddol diwygiad, yn help ysprydol calonogol Iesu Grist, yn unig y mae modd cael yr iachad hwn oddiwrth niweidiau ofnadwy pechod. Dyna fel yr ymddengys ffeithiau i

R. L. Herbert.

O DDOWLAIS I SIR ABERTEIFI.

Ar gais Mr. Thomas, Pantdefaid, yr wyf yn danfon i'r Ymofynydd nodion o'r hyn a glywais, feddyliais, ac a welais yn ystod fy ymweliad â'r parth Undodaidd, Sir Aberteifi. Fy amcan, wrth ysgrifenu, yw dyfynu ychydig wersi oddiwrth ragorion a diffygion y bobl. Gan fod un o brif feirdd Lloegr wedi dweyd mai dyn yw myfyrdod priodol dynoliaeth, felly, nodwn, y tro hwn, rai meddylddrychau a gynnygiasant eu hunain i ni tra ar ein taith. Dechreuwn yn Nowlais gydag ymweliad dau fardd o Gellionen â'r lle ychydig ddiwrnodau cyn y cyrddau yn y Llwyn. Nos Sadwrn, Ebrill y 24ain, tra yn marchnad Dowlais, rhoddais gwpan i'r brawd H. Morgan i'w drosglwyddo i'w ferch fach, Hannah. Ar ol derbyn y cwpan, meddai y brawd:—

'E gipiodd Parch. Davies gwpan—i'w rhoi
Yn rhad i H. Morgan,
O farchnad fad Dowlais fan,
I Hannah faeh ei hunan.

Dyna enghraifft o awen barod, onide? Dydd Mercher, Ebrill yr 28ain, cychwynais gyda'r trên o Ferthyr yn nghwmni y brawd John Evans, Cefncoed. Dywedodd nas gallai weithio. o herwydd fod ei law yn magu. Felly, penderfynodd fyned i'r cyrddau. Penderfyniad da iawn, frawd. Buasai mwy o lewyrch ar ein cyrddau, yn neillduol yn Sir Forganwg, pe gwnelai y gwŷr lleyg yn dda gyrchu i gyrddau chwarterol yr enwad, a chymmeryd rhan ynddynt hefyd. Traetha y gwŷr llen eu golygiadau *still* (iaith Aberteifi); paham na chelem y gwŷr lleyg i wneuthur yr un modd? Peth purion fyddai i wŷr lleyg (megys C. H. James, Ysw., y Cadben Davies, Brownhill) a llen gael eu hethol yn gylchynol fel llywyddion yr Undeb Undodaidd Deheudir Cymru. Dylid ffurfio trysorfa at wasanaeth yr enwad yn Nghymru. Fel hyn, gallai y gweinidogion gyfnewid â'u gilydd yn rheolaidd; credwyf y buasai hyny yn sicr o helpu i lanw y gwahanol gapelau. Y mae rhy fach o gyfnewid pwlpudau yn ein plith. Traethed ereill eu barn ar hyn.

Teithiodd y brawd Evans a minau gyda'n gilydd nes cyrhaedd Hirwaun. "*All change here*," meddai'r *guard*. Felly, gorfod i ni ymadael â'r gerbydres o Ferthyr—dyna hyd ei gwynt hi—ac aros dyfodiad trên 'Berdar i fewn. Nid hir y bu hyn. Ar ol i'r "ceffyl tân" ddyfod i fewn, edrychais am un o'n gweinidogion. Yn y man, gwelais y Parch. E. W. Lloyd yn brysur gyda'r gwaith o ddarllen, fel pob Rhyddfrydwr da, nid ei bregeth (yr oedd hono ar ol yn y Cwmbach), ond y *South Wales Daily News*. Yr oedd Mr. Lloyd yn edrych yn gampus. Ni feddyliodd neb o'i gyfeillion y buasai byth yn ymweled ag Aberteifi ar ol ei glefyd diweddar. Yr oedd i farw, yn ol tystiolaeth y meddygon ryw flwyddyn yn ol. Felly, "cam*stak*odd" y meddygon. Y mae *camsyniad* y meddyg yn dda iawn ambell waith. Cofied y claf nad yw hi ar ben tra fyddo bywyd. Fel y dywedodd Kilsby wrth gyfaill iddo, felly y dywedaf finau wrth Mr. Lloyd, "*May you live for ever*" i draethu y gwirionedd, a chyhoeddi Efengyl Duw i'r bobl.

Nid hir y buom cyn cyrhaedd Castellnedd. Yma rhaid aros am yspaid awr. Ymwelasom â'r dref, a chyfarfyddasom â'r brawd Lewis Hopkin, o Gellionen. Yr oedd yn rhy brysur i gael ymgom. "Llaw y diwyd a gyfoethoga," medd y ddiareb. Clywais y brawd, un tro, yn adrodd pennillion i gladdfa Gellionen. Ar ol cael tipyn o luniaeth, i ffwrdd â ni dros y pynt a thrwy y gwynt nes cyrhaedd Glandwr. Yma daeth i'r trên y Parch. J. Evans, gweinidog Gellionen—begian pardwn, gweinidog Onenfawr. . . . .*

* Nid ydym yn ystyried fod y Wasg y lle priodol i wyntyllu y pwnc a gyfeirir ato, ac felly, yr ydym wedi ei ystyried yn ddoethach ei adael allan yma.

"Pa le yr ydych yn myned?" gofynai brawd i Mr. Evans, Gellionen, yn Nglandwr. "I gyrddau Llwynrhydowen," oedd yr ateb. "Traethwch y gwirionedd yn ddiofn," medd y brawd. "Treiwn ein goreu," medd Mr. Evans. "Mr. Jones, Aberdar (tad golygydd parchus yr YMOFYNYDD) oedd eich meistr i gyd ar y pen hwn," meddai'r brawd. Yn ddiamheuol, yr oedd Mr. Jones yn wrol iawn, yn ol pob hanes. Geilw Mr. T. Thomas ef yn ei gân i'r *pony* "Un o feib y Daran.' I'r YMOFYNYDD â'r gân, Mr. Thomas, os gwelwch fod yn dda. Wrth gwrs, gyda chaniatad Mr. Gol. Gwroldeb Mr. Jones ydyw un o angenrheidiau yr oes hon. Na fydded i *etiquette* y bedwaredd ganrif ar bymtheg ddylanwadu arnom nes ein hanalluogi i draethu *y gwirionedd* yn wrol. Gormod o dueddiad sydd ynom i barchu cyfaddasrwydd *(expediency)* yn lle egwyddorion. Tra yr oedd fy meddwl yn rhedeg yn y cyfeiriad hwn, cyrhaeddodd y trên Carmarthen Junction.

"Y mae y brawd John Lewis, Dowlais, yn y cerbyd agosaf i ni," meddai Mr. Evans. "Nid wyf yn credu hyny," oedd fy ateb. "Wel, rhaid fy mod wedi camsynied." Ar hyn, daeth Mr. D. Jones, Aberdar (brawd y Gol.) ataf, a dywedodd, "Gwelais Mr. Lewis, Dowlais, yn y cerbyd nesaf. Buais bron â dweyd wrtho am ddyfod atom ni. Deuwch i'w weled." "O'r goreu." Cawsom ein siomi. Er hyn, ni welais yr un dyn erioed yn fwy tebyg i Mr. Lewis. Fel ffaith, nid oes dau wynebpryd i'w cael yn berffaith debyg i'w gilydd. Dywed llysieuwyr nad oes dwy ddalen yn berffaith debyg. Trwy yr hyn a elwir *association of ideas*, arweiniwyd fy meddwl i debygolrwydd arall—tebygolrwydd rhwng enwau. Credwyf ein bod ni, y Cymry, yn dechreu dysgu gwers oddiwrth y tebygolrwydd olaf hwn. Fel enghraifft o'r tebygolrwydd, nid oes eisieu ond crybwyll un o Jonesiaid, Davisiaid, ac Evansiaid yn mhob man, fel, pan enwir enw dyn, rhaid crybwyll ei le cartrefol neu ei grefft cyn y gellir deall am bwy y sonir. Dyna enwau y gweinidogion Undodaidd, y lle cartrefol sydd yn eu gwahaniaethu—Jones *Aberdar*, Jones *Llanbedr*, Davies Alltyplacca (beth yw ystyr Alltyplacca?) Davies Cefn, Davies Cribin, Davies Dowlais. Yn awr, dadleua y rhesymegwyr pa un a ydyw enwau priodol *(proper names)* yn cofnodi (*connote*) rhywbeth neu beidio. Yr wyf yn credu eu bod. Beth bynag am hyny, yr ydym ni, y Cymry, yn dechreu eu gwneyd yn gofnodiadol. Diolch am hyny, oblegyd bydd gwell siawns i wybod pwy a feddylir pan grybwyllir ei enw. Hefyd, yn ol pob tebygolrwydd, daw mwy o amrywiaeth enwau. Nid oes un amheuaeth pwy feddyliwn wrth yr enwau canlynol:—Mri. *Hathren* Davies, *Gwenogfryn* Evans, a *Ceredig* Jones. Nid marc yn unig yw *Hathren* Davies, ond cofnoda yr enw--Davies a anwyd neu a fagwyd gerllaw yr afon Hathren. Bydded i ni roddi rhyw enw cofnodiadol i'n plant, yna, ceir diwedd ar Dafydd y Gof, John y Saer, &c. "Pwy fu yn pregethu gyda chwi ddoe?" "Mr. Evans." "Pa Mr. Evans?" "Evans Bodawel." Pe buasai y brawd yn galw ei hun yn D. Bodawel Evans, deallid yn y man pwy feddylid heb holi byth a hefyd.

Gorfuwyd arnom newid y trên yn Carmarthen Junction. Ar ol aros rhyw ychydig yn y Junction, cychwynasom am Landyssul. Daeth

rhyw frawd lled ddigrif i'r gerbydres yn Nghaerfyrddin. Yr oedd fel pe ar ei eithaf am ddamnio pob peth cyssylltiedig â'r gweithiau. Yr oedd pobl Morganwg yn fwy o *sneaks* nâ'r Cardis. Nis gallasai y blaenaf weithio hanner cymmaint â'r olaf. Yr oedd ceffylau Aberteifi lawer yn gynt nag eiddo Morganwg. Pob peth yn dda yn Aberteifi, a phob peth yn ddrwg yn Morganwg. Taw pia hi, *boys*, oedd fy meddwl. Yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd y brawd wedi cyfarfod rhyw siomiant neu gilydd yn y gweithiau. Siomedigaeth garwriaethol, arianol, neu rywbeth cyffelyb. Felly, yr oedd y brawd yn analluog i weled ochr oleu y pictiwr. "Charity begins at home," dywed y Sais. Gyfeillion, pan fyddo tueddiad ynom i dreulio ein hamser yn mhod (*mood*) ein cyfaill yn y trên, cofiwn fod rhywbeth allan o'r gêr ynom *ni ein hunain*. Dyna wnaeth y proffwyd Esaiah pan y gwelodd yr Arglwydd yn y deml. Dyna ddylem ninau nwcyd. Ymadawodd y brawd â ni yn Mhencader.

Yn araf, araf, cludwyd ni o'r lle olaf i bentref Llan Sant Tyssul, heb i ddim pwysig gymmeryd lle. Yn yr orsaf yr oedd y brawd siriol, W. James, B.A., yn dysgwyl dyfodiad y brodyr oeddent i draethu y genadwri y noson hono a'r dydd canlynol yn nghapel eang Llwynrhydowen.

Dowlais. W. J. Davies.

NODYNAU GWASGAROG.

GWIR LWYDDIANT PREGETHWR.

Y *test* cyffredin dros farnu llwyddiant pregethwr ydyw hwn:—"A ydyw'r capel neu yr eglwys yn llawn? A ydyw'r tyrfaoedd yn tyru tuag yno bob Sul i'w glywed?" Unwaith y byddo'r pregethwr wedi cael yr enw iddo ei hun o fod yn boblogaidd, mae pawb wed'yn yn *satisfied*. Bod yn boblogaidd yw bod yn llwyddiannus. Ni ofynir a oes rhywbeth sylweddol yn cael ei ddweyd; a oes un hedyn ffrwythlawn o feddwl ac o gariad yn disgyn i galon rhyw wrandawr; a oes unrhyw enaid yn cael ei ddwyn i argyhoeddiad o'r gwirioneddau hyny sydd yn oleuni ac yn fywyd y byd; a oes rhywfaint o frwdfrydedd sanctaidd yn cael ei greu a ddug ffrwyth mewn daioni ymarferol. Yr ydym yn darllen fod yr Iesu, pan y gwelodd y tyrfaoedd, wedi cymmeryd y dysgyblion o'r neilldu i'r mynydd, ac wedi pregethu i'r ychydig hyny y geiriau anfarwol ar y rhai mae'r byd wedi bod yn byw byth oddiar hyny. Cymhwyswch y *test* cyffredin o lwyddiant at holl bregethwyr Undodaidd y ganrif bresenol, ac nis gwn a oes un heblaw Theodore Parker sydd yn dyfod i fyny ag ef; ac nid oedd Parker o gwbl yn gynllun o'r pregethwr poblogaidd. Ni feddai un ddawn areithyddol. Yr oedd dirgelwch ei lwyddiant yn gorphwys ar y safle a

gymmerai ar amgylchiadau ei amser, ac ar yr adnoddau diderfyn o gyfoeth meddyliol ac ysprydol a gorffolai yn ei bregethau. Ond pwy all wadu, os nad ydynt yn boblogaidd yn yr ystyr gyffredin, fod Channing a Martineau, Freeman Clarke a Collyer, Beard, Crosskey a Hopps, &c., yn bregethwyr llwyddiannus o'r iawn ryw, a bod dylanwad y ddau flaenaf, yn neilldnol, wedi bod yn annhraethol fwy nag eiddo un pregethwr poblogaidd arall yn eu hoes? Nid yw Undodiaeth o gwbl yn boblogaidd, ond pwy all wadu nad yw hi wedi bod yn llwyddiannus, pan y cydnabyddir gan ddynion fel Gladstone ei bod wedi bod yn un o'r elfenau pwysicaf yn nadblygiad meddyliol a chrefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. UNIT.

SERFETUS YN GYNTAF, CALFIN YN AIL.

Meddai Jenkin Ll. Jones, Chicago, "Yn nesaf at fod yn Serfetus a gymmerodd ei losgi am ei farn, dewiswn fod yn Calfin, a feddai ddigon o sêl dros ei opiniynau, pan oedd gallu ganddo i draddodi Serfetus yn aberth i'r fflamiau." Mae hwna yn osodiad eithafol, feallai, o'r egwyddor nad yw dyn ddim yn ddyn gwerth ei alw felly, os na fydd en' berchen ar argyhoeddiadau, a'r rhai hyny yn dân yn ei esgyrn yn ei yru i lafurio a dyoddef drostynt. Mor eiddil a dirmygus ydyw llawer o'n Undodiaeth ni, pan y gosodwn hi wyneb yn wyneb â'r egwyddor yna. Cynnulleidfaoedd teneu ar y Sul, hanner yr aelodau gartref, yn rhodiana, yn ymweled â'u perthynasau, ac yn hel busneson y byd; ein Hysgolion Sul yn nychu o herwydd difaterwch a phrinder athrawon, a rhyw ias oeraidd, mewn canlyniad, yn trywanu calon y gweinidog, druan, ac yn cynnyrchu *fainting fits* a fyddant yn debyg o droi yn *chronic*. Dyna ddarlun ag mae rhai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn gynnefin ag ef. Darlun arall. Nifer luosog o Undodiaid yn mhob ardal lle mae capel, yn cydymdeimlo â'r syniadau, yn ffrindiau i'r gweinidog, yn barod i gyfranu at unrhyw symmudiad, megys codi capel, &c. Ond ni chymmerant un cam yn mhellach. Ni welir hwy byth yn yr addoliad rheolaidd, nac yn yr Ysgol Sul. Nid yw'r egwyddorion yn ddigon o werth i sicrhau eu hymdrech a'u llafur drostynt. Fel y Ffrancwr hwnw a osododd ei gerdyn a'i enw arno ar allor yr Eglwys, er mwyn talu y warogaeth rataf a wyddai am dani i grefydd, a ffwrdd ag ef, felly mae llawer o Undodiaid yn talu *passing visit* i'r Cwrdd Chwarterol neu Flynyddol, pan y daw yn ei dro i'r ardal; ac ar ol i hwnw i fyned drosodd, mae eu cyssylltiad hwy â'r achos yn terfynu, nes daw'r cwrdd nesaf yn mhen blynyddoedd ar ol hyny. Darlun arall etto. Rhieni Undodaidd yn hollol esgeulus o addysg eu plant yn yr egwyddorion sydd yn anwyl iddynt hwy eu hunain, ac yn edrych ar eu tyfiant mewn *manliness*, ac yn y rhinweddau hyny sydd yn cyfansoddi gwir ddynoliaeth, fel pethau ail-raddol, os nad dibwys hollol. Onid oes offeiriaid yn Eglwys Lloegr heddyw sydd yn darllen credo Sant Athanasius, ac felly, yn damnio eu rhieni, wedi eu magu i

fyny mewn teuluoedd Undodaidd? Onid oes gyda ni rieni nad ydynt yn teimlo un petrusder i anfon eu plant, yn feibion ac yn ferched, i ysgolion sydd o dan reolaeth Eglwysig? a phan y deuant adref, mae'r pydredd Eglwysyddol wedi ymaflyd ynddynt, ac mwyach nid yw y gweinidog diaddurn, y capel llwydaidd, ac addoliad syml cyssegr eu tadau ddim ond pethau i'w gwawdio. Ar ben colofn yr hyspysiadau yn y newyddiaduron, gwelir yn aml y gair WANTED. *Wanted* yn ein plith ni, yn neillduol, yw Undodiaid o ddifrif—nid dynion wedi eu gwneyd o *putty*, ond yn hytrach o *steel*, na ymostyngant nes eu tori, ac na wnant *gompromise* o gwbl â'r diafol, ond a ymrestrant gyda'u brodyr, a ymaflant o ddifrif yn ngwaith ein heglwysi a'n Hysgolion Sul, a ymladdant dros eu hegwyddorion, ac a wnant yr oll ag sydd yn eu gallu i wneyd yr argyhoeddiadau sydd yn anwyl iddynt hwy yn anwyl yn ngolwg eu teuluoedd, ac yn allu yn y cymmydogaethau lle maent yn byw. UNIT.

CYFFESIADAU OFFEIRIAD.

"Yr wyf yn gofyn gyda phob gostyngeiddrwydd lle mae'r syniad o Driudod (*Threeness*) yn cael ei osod allan gydag ystyr a nerth athrawiaethol yn y Testament Newydd? Yn mha le y dywedir wrthym am ufuddhau, caru, ac addoli y Tri yn Un? Yn mha le y cyhoeddir Ef yn y cymmeriad yna? Yr ydym yn darllen, "Un Duw sydd," yn gystal a'r geiriau, "Myfi a'r Tad un ydym;" ond nid ydym yn darllen yn un man fod Tri yn Un heblaw mewn adnod sydd wedi ei hir gydnabod yn *forgery*.

"Ni cheir yn un o'r credöau hyn (yr Apostolion a Nicea), ac yn sicr ni cheir yn yr Ysgrythyrau yr ymadroddion, "Duw y Mab," a "Duw yr Yspryd Glan.' Pryd bynag yr wyf fi yn dweyd y gair Duw, yr wyf yn golygu Duw y Tad, ac nis gallaf lai na golygu hyny, os ydwyf yn golygu rhywbeth. Pan yr ychwanegaf yn uniongyrchol, 'Duw y Mab,' neu 'Dduw yr Yspryd Glan,' yr wyf yn teimlo fy mod wedi crwydro oddiwrth yr ystyr yr agorais fy ngeneu ag ef. Mae yr ymadrodd, 'Duw y Tad,' i mi yn ddealladwy ac eglur, oblegyd mae gan y geiriau ystyr derfynol gydag helaethrwydd annherfynol. Ond fel mae'r geiriau yn sefyll, ac yn y drefn yn yr hon maent yn sefyll, nid yw'r ymadroddion ereill, 'Duw y Mab,' a 'Duw yr Yspryd Glan,' yn ddealladwy i mi. Pan y dywedaf hwy, yr wyf yn teimlo fy hun mewn rhyw ddyryswch munydol, fel pe buasai y bendro wedi dyfod arnaf. Yr wyf wedi bod yn cymmeryd rhan mewn *performance*, ac yr wyf bob amser yn gwneyd y gwaith yn wael.

"Nid wyf yn cofio yr amser pan oeddwn yn caru y namyn deugain erthygl, ac yn meddwl eu bod yn ddim amgen nag erthyglau heddwch, ac yn werth cymmaint ag erthyglau heddwch, ac yn werth cymmaint ag erthyglau felly ar y cyffredin. Nid wyf yn meddwl fod neb yn caru y namyn deugain erthygl.

"Nid wyf erioed wedi deall paham y dywedir fod yr Hollalluog 'heb nwydau,' 'heb ddyoddefiadau,' yn y Llyfr Gweddi Cymraeg. Ond amlwg yw mai camgyfieithad o '*passions*' yw 'dyoddefiadau.' Nid yw yr enghraifft yma ond un o gannoedd sydd yn tystio mai llaw *prentis* sydd wedi bod wrth y cyfieithad Cymraeg o'r Llyfr Gweddi. Yn y Beibl, desgrifir ef fel yn caru ac yn cashau; fel yn eiddigus a digllawn, ac yn edmygu ei weithredoedd ei hun. Dywed duwinyddion Eglwys Lloegr nad yw'r geiriau hyn yn y Beibl yn golygu dim.

"Yr wyf wedi edrych bob amser ar y ddwyfed erthygl ar bymtheg fel dernyn o *rigmarole*, a dim rhagor.

"A siarad yn gyffredinol am erthyglau y catecism, a darnau helaeth o'r Llyfr Gweddi, yr wyf wedi arfer lled-dybied mai gwaith dynion oeddent heb wybodaeth o'r natur ddynol, heb ymysgaroedd trugaredd, yn gweithio am gyrhaedd y seddau uwchaf yn yr Eglwys, ac yn eu cael.

"Mae y Catecism wedi bod y brofedigaeth waethaf i mi yn ystod fy mywyd hir. O ieuenctid i henaint, dyma'r olwyn ar yr hon yr wyf wedi cael fy arteithio a'm poenydio. Yn fy ngholwg I, maen melin ydyw wedi ei grogi am wddf Eglwys Lloegr. Nis gall fod yn reddf naturiol unrhyw wir weinidog wneyd y fath osodiadau ag a geir yn y Catecism yn sylfaen addysg i blant. Yr wyf yn addef hefyd fod llawer o'r gweddiau a'r ffurfiau ereill yn anfeddyginiaethol o aml-eiriog a blinderus. Buasai unrhyw ddyn mewn bywyd annghyoedd a wnelai arferiad o ddefnyddio yr un geiriau yn barhaus yn cael ei ystyried yn *nuisance*. Ar ba sail y gellir meddwl fod *stupidities* sydd yn annyoddefol i ddyn yr iaith mwyaf addas i bresenoldeb Duw?"—*Reminicences of Oriel College, &c., by Rev. T. Mozley, M.A.; Vol. ii.*

Y PARCH. J. LL. JONES, CHICAGO.

Yr ydym newydd dderbyn adroddiad o weithrediadau blwyddyn yn nghapel y brawd uchod, a da genym ddeall fod yr achos, yn ei holl gangenau, yn ymddangos mor iachus. Ymddengys i ni fod mwy o waith yn cael ei osod yn nwylaw y merched a'r gwragedd yn y capel hwn nag yn ein capelau ni. Carem weled yr achos gyda ni yn cymmeryd i fyny fwy o gynlluniau gwaith. Camsyniad o'r mwyaf ydyw gadael holl waith y gynnulleidfa yn nwylaw y pregethwr, nad pa gystal y byddo. Ceisier cael cymmaint ag a aller yn y gynnulleidfa i gydio mewn rhyw waith fyddo er llwyddiant yr achos da.

PRIODI.

Nid oes genym un lle i gredu fod pobl y Senedd wedi darllen ein nodyn yn y rhifyn diweddaf, dan y pennawd uchod, ac nid ydym yn

gwybod chwaith fod J. D. wedi ysgrifenu atynt, ond "rhywbeth rhyfedd," chwedl y bardd, fel pe byddai'n adsain i'r nodyn, mae deddf wedi ei phasio yn awr yn y Senedd, trwy yr hon y galluogir J. D., os myn, i briodi ar unrhyw adeg rhwng 8 y boreu a 3 y prydnawn. Nid oeddym ni erioed wedi meddwl mai *ya y* priodi oedd yr anhawsdra mawr, ond *ar ol* y priodi. Cael dau yr un feddwl, fe hwylir yn osmwyth iawn hyd orphen y priodi, ac mae'n bossibl hyd ddiwedd y mis mêl. Wedi gollwng y llong ar gefnfôr bywyd, mae yr anhawsderau yn codi fynychaf; a'r ddadl gyntaf a gwyd, feallai, fydd, pwy sydd i fod wrth y llyw. Mae y ddau, trwy briodas, wedi eu gwneuthur yn un. Ond *pa un* yw yr un? Ai y gwr yw yr un, ynte y wraig? Y gwr yn unig, ynte y wraig yn unig? Nid un o honynt yn unig, ond y ddau gyda'u gilydd. Nid yw pob un ar ei ben ei hun, ond hannermaent wedi colli yr hanner arall er mwyn lles y cyffredin. Nid oes un o honynt, bellach, i gael ei ffordd ei hun yn gyfangwbl. Hanner yw eu rhyddid i fod bellach, a chamsyniad dybryd a wneir pan gymmero un fwy na'i gyfran. Dylid cofio, fodd bynag, nad yw y rheol yma yn nghylch yr hanner yn ateb pan eir i ofyn tocyn yn ngorsaf y rheilffordd. Gofynir tâl dau yno am y ddau hanner, sef tâl un am bob hanner.—Q.Q.

CLOC BYWYD.

III a IIII,* tra hoff adeg,—VIII a IX,
A daeth nos ar redeg;
Hen awr ddu yw XI,
Ni chawn ond I ychwaneg.

Caersws. J. C. H.

* Rhyfedd mai nid IV ond IIII sydd ar wyneb clociau ac oriorau.—(*O'r Faner.*)

Manion a Hanesion.

Rhoddodd y diweddar David Rees, Eurfaen Hall, Llanbedr, ddwy bunt yn y flwyddyn yn ei ewyllys i weinidog presenol Brondeifi, cybyd ag y byddo'n weinidog y lle. Wedi i'r gweinidog presenol ddarfod bod yn weinidog yn y capel, y mae'r arian yn myned i nai i David Rees.

Capel-y-Bryn. — Anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul y lle hwn a gwledd o dê prydnawn dydd Mercher, Mai 5ed; a chafwyd cyfarfod llenyddol llwyddiannus yn yr hwyr o dan arweiniad y gweinidog. Y mae yma ddynion o ddawn a medr; a'r unig beth sydd ar goll yw undeb cydweithrediad a dyfalbarhad. Ceisier meddiannu y rhai hyn, a than feudith Duw, y mae llwyddiant yn sicr.

Dywedodd un o'r pregethwyr. Y mae y diafol yn foneddwr, ac fe gwyd i fyny ac aiff i ffwrdd os gorchymynir iddo. Dywedir yn yr hen lyfr os gwrthwynebir y diafol, y bydd iddo ffoi oddiwrthym.

Mae Mrs. Partington yn drwm iawn i glywed. Clywodd bregeth yn ddiweddar ar y testun, "Many are cold, but few are frozen."

Y nos yw henaint y dydd, a henaint yw nos bywyd. Etto y mae'r nos yn llawn arderchogrwydd, ac i lawer yn fwy dysglaer nâ'r dydd.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas uchod yn hen gapel y Llwyn ar ddydd y Cwrdd, a phenderfynwyd fod gwr ieuanc o'r enw Williams, sydd yn yr ysgol gyda'r Parch. W. Davies, Llanbydder, i gael ei dderbyn ar y *Fund.* (2) Ei fod i gael ei ystyried ar y *Fund* o'r Nadolig, ac i dderbyn ei gyfran gyntaf ar unwaith. Yr oedd hyny am fod achos wedi bod gerbron amryw droion o'r blaen, ac wedi annghofio y Nadolig diweddaf.

Adroddir yn y *Christian Life* am ddyn wedi gadael cant punt yn ei ewyllys i eg lwys, ar y telerau fod y gloch i gael ei chanu ar ben pob blwyddyn ar ol ei farwolaeth. Gwagedd o wagedd!

Nid oes gan Ruskin ddim cydymdeimlad a Darwin ac ereill yn eu hymchwiliadau i gael allan yr hyn oedd dyn, a chymmer y cyfleusdra yn fynych i annog dynion i ystyriaeth o'r peth yw a'r peth fydd.

Yr oedd yr offeiriad yn holi'r dosparth. 'I ba le'r aeth Crist ar ol marw?" "I'r nefoedd" ebent hwythau, "Och, och, rhag cywilydd," ebe yntau, "wyddoch chi ddim fod y Gredo yn dywedyd iddo ddisgyn i uffern?" Yn mhen ychydig gofynodd iddynt "I ba le yr ewch chwi wedi marw?" "I uffern, syr," ebent hwythau, gyda'r canlyniad iddo fygwth eu bonclustio. Ond yn sobr onid efe ddylai gael ei fonclustio am ddarllen credo sydd yn cynnwys cymmaint o *nonsense*?

Mae y sefyll allan yn America eleni wedi costi i'r wlad wyth miliwn o bunau.

Mae hyspysiad wedi ymddangos yn un o'r papyrau am gludydd (porter) yn ofni Duw, ac yn gallu cario dau can pwys.

Gwerthwyd darn o dir yn ddiweddar yn Llundain am £36,750, neu yn ol £30 am bob troedfedd *square*, llai nâ digon i osod stol deirtroed i lawr.

PRIODAS.

Mai 1, yn nghapel Alltyplaca, gan y Parch. John Davies, yn ngwydd y cofrestrydd, y Parch. William Parry, Bridgend, â Miss Thomas, Newton Nottage, ger Bridgend. Hir oes lwyddiannus iddynt.

Marwgofion.

Mawrth y 23ain, yn 64 mlwydd oed, Mary Evans, Pantmelyn, Plwyf Llanbedr, a chladdwyd hi yn Nghapelygroes y dydd Gwener canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Gadawodd briod a phump o blant i alaru ar ei hol.

Ebrill yr 2il, yn 77 oed, Mrs. Jane Jones, Cwm Mawr, Llanwenog, gwraig y diweddar Thomas Jones o'r un lle. Yr oedd yn fam i wyth o blant—pedwar mab a phedair merch, y rhai ydynt oll yn fyw ac yn briod oddieithr dau o'r meibion. Er dydd ei phriodas, nis gwelodd ond un angladd yn myned o'r Cwm Mawr, sef angladd ei phriod. Mwynhaodd iechyd da hyd o fewn i wythnos i'w marwolaeth. Yr oedd yn aelod o'r gynnulleidfa Undodaidd yn Nghapelygroes, fel ei thad a'i thadcu o'i blaen. Bu yn weithgar a chynnil drwy gydol ei bywyd maith, ac y mae ei phlant oll mewn amgylchiadau cyssurus. Medrai siarad yn ffraeth ac ysmala iawn weithiau, ac nid rhwydd oedd ei gorchfygu mewn dadl. Claddwyd hi yn Nghapelygroes, a phregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ebrill y 7fed, yn Mlaenpydernyn, Pencarreg, Swydd Gaerfyrddin, David Lloyd Davies, mab hynaf y diweddar Mr. John a Mary Davies, o'r lle a nodwyd, yn 21 o flwyddi oed. Bu y gwr ieuanc galluog a thalentog a thra gobeithiol hwn yn claf-ychu yn nychlyd am flynyddoedd. Cafodd fanteision dysgeidiaeth pur dda: bu yn myfyrio dan ofal yr athraw medrus, David Lewis Davies, Ysw., Emlyn Academy, Llanbedr, dros dymhor, a bu ei gynnydd yn gyflym mewn dysg a moes. Darllenodd lawer iawn ar hyd ei oes fer o weithiau yr awduron enwocaf, megys, Parker, Freeman Clarke, Emerson, Norton, Channing, Livermore, Belsham, Price, a Priestly, ar dduwinyddiaeth. Myfyriai yn helaeth mewn gwleidyddiaeth ar areithiau Bright a Cobden a gweithiau enwog Proff. Faucet, J. Stuart Mill, S.R., ac ereill. Yr oedd, o ran ei farn grefyddol, yn Undodwr trwyadl. Pe cawsai fyw, diau mai efe fuasai arweinydd y blaid Ryddfrydig yn ardal Pencarreg a Llanybyther, yn lle ei ddiweddar dad Mr. John Davies, Arch-Ryddfrydwr Gwlad Myrddin. Chwith iawn ydyw genym orfod cofnodi ymadawiad ein cyfaill ieuanc, ond diangodd o "wlad y gofid i wlad y gân." Bydded i'w anwyl

fam allu galaru yn gymhedrol, gan roddi ei phwys ar addewidion y Tad perffaith a digamsyniol.—*Teifiwyson.*

Ebrill 11, yn 65 oed, John Thomas, Glynynod, ger y Gernos. Claddwyd ef yn hen fynwent y Llwyn y dydd Mercher canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Clywid llawer yn dywedyd yn yr angladd mai dyn diwyd a diniwed iawn oedd John. Gadawodd ar ei ol weddw a phedwar o blant i alaru eu colled.

Ebrill 20, ar ol cystudd maith, yn 70 oed, Mary, anwyl briod Griffith Jenkins, gof, o'r Cwrtnewydd. Dydd Gwener y Groglith, gosodwyd ei chorff i orphwys yn mynwent Capel-y-Bryn, pan y cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan weinidog y lle. Gadawodd ar ei hol ei phriod oedranus a saith o blant i alaru am nad yw hi mwy. Dymuniad yr ysgrifenydd yw, fod iddynt fodd i sugno eu cyssuron o'r ffynnonau hyny ag y mae gwir gyssuron ynddynt yn ngwyneb amgylchiadau tywyllaf bywyd.

Ebrill 24, yn 78 oed, Lewis Jones, Felinban, Llanwnen. Claddwyd ef yn y fynwent blwyfol y dydd Mawrth canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. yn Capelygroes cyn myned tua'r gladdfa. Gadawodd weddw oedranus ac un mab i alaru ar ei ol. Undodwr didderbynwyneb a gwresog oedd Lewis, ac ni bu arno erioed ofn dadlu ei achos. Cafodd cyn'lleidfa Capelygroes a'r Ysgol Sul golled mawr ar ei ol. Treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn gweithio yn Llwynygroes a'r Neuaddfawr, ac nid aml y bu gweithiwr mwy parchus yn unman. Byddai yn ennill i bob cymdeithas gael dynion mor gywir a ffyddlon â'r hen dad ymadawedig.

Ebrill 28, yn Gladstone Hall, Llanbedr-Pont-Stephan, Mr. William Lloyd, Chwegydd a Llieinydd, yn 71 oed. Er ein dwfn alar a'n colled diail gorfodir ni gofnodi marwolaeth un o'r cyfeillion mwyaf twymgalon yn ein tref. Fel rhyddfrydwr, safai yn arbenigol braidd ar ben ei hun, fel Tywysog Rhyddfrydwyr Llanbedr. Yn yr Etholiad diweddaf, gwnaeth wrhydri dros ddychwelyd D. Davies, Ysw., A.S., i gynnrychioli Sir Aberteifi, ac hefyd dros y gwir a chydwybodol ryddfrydwr, W. R. H. Powell, Ysw., A.S., dros hen wlad Myrddin, yr hwn sydd yn ffyddlon gyflawni yr ymddiriedaeth a osodwyd arno. Cofus genym am ddyfodiad gwrthddrych ein cofiant gyntaf i drygianu i Lanbedr—trwy ei arosiad hirfaith yn ein tref, pan y byddai galw am hyny, ymresymai bob amser yn gadarn a difloesgni dros hawliau dyn, hyny yw, dros wir ryddid, ac nid dros benrhyddid. Ei arwyddair oedd, "Y gwir yn erbyn y byd." Credwn ei fod y dirwestwr mwyaf gonest a diidwyll yn yr holl fyd! Safai bob amser fel craig yn erbyn bob gorthrwm hyd ei llawr. Fel aelod o'r Bwrdd Lleol, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf gweithgar a chydwybodol. Yr oedd yn un o aelodau ffyddlonaf Soar, Eglwys yr Annibynwyr yn Llanbedr. Ymdrechodd ymdrech deg yn ei ddydd, a diau bod "coron cyfiawnder" yn ei aros yn Nghaersalem, dinas hedd. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanbedr, a chan ei fod y fath ymneilluwr trwyadl, synwyd ni yn ddirfawr na buasai yn cael ei gladdu yn ol y drefn newydd, yr hyn oedd mor unol â'i anian; canys casasai dwyll offeiriadaeth â'i holl enaid! Greddfed deuparth ei ysprydrhyddfrydig yn nghalonau miloedd o'n cydwladwyr.

"Ah! wr hoff, os marw yw,—os hunodd
Ei swynion diledryw,
Uwch ei fedd, d'wedwn heddyw,
Mae hwn, er yn farw'n fyw."

—*Teifiwyson.*

Mai 3, yn 25 oed, John David Jones, mab David a Mary Jones, Clynllwyd, ger y Cribin. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur prudd gan J. D., R. C. J., a W. R.—"Aethum yn fud."

Mai 3, yn 71 oed, Mary, priod Mr. David Jonathan, Ffwrneithin, ger Mydroilyn. Y dydd Gwener canlynol, daeth torf anarferol o luosog yn nghyd i'w hebrwng i'w "du oer wely" yn mynwent Dihewid. Yn yr annedd-dy cyn cychwyn o'r angladd, pregethodd y Parch. T.T. Capelgroes a Pantdefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i 13 neu 14 o blant, o ba rai y mae wyth yn fyw. Gobeithio y caiff ei phriod oedranus nerth i ymgymmodi â'r ymadawiad, a'r plant oll yr un modd.

Mai 5, Mr. Rees Thomas, Lower Salan, Ohio, U.D.A., ail fab Mr. W. Thomas, Pontfaen, Cellan, yn 49 oed.

Mai 8, Rees Thomas, baban Rees Llewelyn, Ysw., Bwllfa, Aberdar, yn 10 mis oed.

Dros dymhor byr fel blod'yn gardd
Bu'n gwenu'n siriol ac yn hardd;
Ond angeu a'i ystyriodd ef
Yn flod'yn Addas Gardd y Nef.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU,—M.E., London; J.J., Llandyssul; T.H., Llwynrhydowen; D.L., Bwlchyfadfa; T.D., Dolbwba; W.H., Cefn; E.J., Carmarthen; T.J., Cwrtnewydd, J.J., Tonypandy; E.J., Ceginan; R.L., Bwlfa; J.R.T., Llanio; D.E., Troedyrhiw; D.D., Lampeter; E.D.H., Aberdare; J.L., Dowlais.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

8vo. Cloth, price 6s.

THE PRESBYTERIAN FUND and DR. WILLIAMS'S TRUST: with Biographical Notes of the Trustees, and some Account of their Academies, Scholarships, and Schools. By WALTER D. JEREMY, M.A., Esq., Barrister-at-Law, the Treasurer of the Presbyterian Fund.

WILLIAMS & NORGATE, 14, Henrietta Street, Covent Garden, London.

Y GWRDD BLYNYDDOL.

Ar y funyd ddiweddaf yr ydym wedi methu gosod ein llaw ar lythyr Mr. Rees yn cynnwys yr hysbysiad, ond credwn fod y cwrdd i gael ei gynnal yn Rhydygwin, Mehefin 23ain; a'r 24ain yn Nghilian.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol Yr YMOFYNYDD wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal a rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol, gall cyfeillion helpu iddi fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

GOL.

Casgliad Rhydygwin, £1 11s. 6c.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜